Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**Ymateb Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys i:**

**Adroddiad ar uwch-gŵyn y Gynghrair Cyfiawnder Troseddol: Adran 60 Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 a chraffu cymunedol annibynnol ar stopio a chwilio.**

Rwy'n cydnabod yr argymhellion a amlinellir yn yr adroddiad hwn, a byddaf yn monitro cynnydd yr Heddlu o ran eu gweithredu. Trafodwyd yr adroddiad uwch-gŵyn mewn cyfarfod o'r Bwrdd Plismona ar 12 Ionawr 2024. Fforwm yw hwn lle'r wyf yn dal y Prif Gwnstabl i gyfrif am gyflwyno gwasanaethau plismona ledled ardal Dyfed-Powys.

Rwy'n cefnogi'r argymhelliad sy'n gofyn i Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu ystyried fframwaith i helpu heddluoedd i gymryd ymagwedd gyson tuag at wneud penderfyniadau, lleihau niwed a gwerthuso eu defnydd o'r pŵer. Rwy'n ymwybodol bod yr Heddlu eisoes yn rhoi mesurau mewn grym i fodloni'r argymhellion yn yr adroddiad.

Nid yw Heddlu Dyfed-Powys yn defnyddio pwerau Adran 60 yn aml, gan nad oes llawer o ddigwyddiadau ar raddfa fawr yn cael eu cynnal yn yr ardal heddlu. Defnyddiwyd Adran 60 ddwywaith yn ystod y 12 mis diwethaf o ganlyniad i gynnydd o ran trais mewn protestiadau a gynhaliwyd yng Ngwesty Parc y Strade yn Llanelli (Sir Gaerfyrddin) lle'r oedd y Swyddfa Gartref yn bwriadu cartrefu ceiswyr lloches. Nid oedd Heddlu Dyfed-Powys wedi defnyddio'r pŵer hwn ers amser hir cyn y ddau ddigwyddiad hyn.

Rwyf wedi trafod stopio a chwilio'n rheolaidd gyda'r Prif Gwnstabl mewn cyfarfodydd Bwrdd Plismona, ac yn parhau i fonitro defnydd yr heddlu o bwerau stopio a chwilio. Mae'r Heddlu'n cyhoeddi ei ddata stopio a chwilio'n flynyddol ar ei wefan.

Yn ystod Asesiad PEEL diweddaraf yr Heddlu (2023-25), roedd yn dda gennyf weld bod y canlynol wedi'i nodi: "Mae'r heddlu'n annog craffu a herio cadarn o stopio a chwilio." Bernir fod Heddlu Dyfed-Powys yn 'ddigonol' o ran defnyddio pwerau'r heddlu a thrin pobl yn deg a pharchus.

O fewn yr Asesiad PEEL, nodwyd y canlynol hefyd: "Mae'r heddlu'n deall ac yn gwella'r ffordd mae'n defnyddio ei bwerau stopio a chwilio drwy ddadansoddi a monitro mewn cyfarfodydd lefel heddlu. Gall ddangos bod ei ddefnydd o stopio a chwilio'n deg ac effeithiol yn gyffredinol. Mae hyn yn helpu i leihau trosedd. Fodd bynnag, dylai'r heddlu sicrhau bod swyddogion yn deall ei amcanion strategol o ran cynyddu'r defnydd o stopio a chwilio."

Mae'r Heddlu eisoes wedi rhoi gwybod i'm swyddfa am y gwaith sy'n cael ei gyflawni mewn perthynas â'r meysydd Asesiad PEEL y mae angen eu gwella. Ceir rhagor o fanylion yn fy ymateb i'r Asesiad PEEL, sydd wedi'i gyhoeddi ar fy ngwefan.

Mae Grŵp Ymgynghorol Annibynnol Dyfed-Powys, sy'n cynnwys aelodau o'r cyhoedd o gefndiroedd amrywiol, yn hap samplu'r defnydd o stopio a chwilio'n rheolaidd. Yn ogystal, mae fy Mhanel Sicrhau Ansawdd yn craffu ar ansawdd cyswllt Heddlu Dyfed-Powys â'r cyhoedd, mewn modd tryloyw ac annibynnol, ar ran y cymunedau yn ardal Dyfed-Powys. Mae fy swyddfa eisoes yn ymgymryd ag adolygiad o'r Panel hwn, a bydd yn parhau i sicrhau bod yr holl bwyntiau o fewn argymhelliad 8 wedi'u hystyried yn ddyledus. Byddaf yn gofyn i'm swyddfa roi gwybodaeth yng nghyfarfod y Bwrdd Plismona ar 11 Mehefin 2024 er mwyn amlinellu'r gwaith a wnaed.

Mae'r Heddlu wedi fy sicrhau y bydd yr argymhellion a nodwyd o fewn yr adroddiad uwch-gŵyn yn cael eu monitro a'u datblygu drwy gyfarfodydd y Grŵp Defnydd Moesegol o Bwerau'r Heddlu. Byddaf yn gofyn i'r Heddlu roi diweddariad ar eu gwaith mewn perthynas â'r argymhellion hyn mewn cyfarfod o'r Bwrdd Plismona ar 11 Mehefin 2024.

Bydd y Prif Gwnstabl a minnau'n cyhoeddi ein hymatebion dan gyfarwyddyd yr amserlenni y cyfeirir atynt yn yr adroddiad.